

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 25 Ebrill 2018 am 5pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Powderhill – yn cadeirio

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

L.M.Adams	A.S.Fox	D.Owen-Jones
S.Belzak	H.Fychan	M.J.Powell
D.R.Bevan	E.George	S.M.Powell
H.Boggis	D.Grehan	S.Rees
J.Bonetto	M.Griffiths	S.Rees-Owen
S.A.Bradwick	J.Harries	A.Roberts
J.Brencher	G.Holmes	J.Rosser
A.Calvert	L.Hooper	R.Smith
G.Caple	G.E.Hopkins	G.Stacey
A.Chapman	G.W.Hughes	E.Stephens
A.G.Cox	J.James	G.Thomas
A.Crimmings	P.Jarman	W.Treeby
J.L.Cullwick	K.L.Jones	L.G.Walker
G.R.Davies	L.Jones	M.O.Weaver
J.R.Davies	R.Lewis	M.Webber
A.Davies-Jones	W.Lewis	E.Webster
L.De Vet	C.Leyshon	D.H.Williams
M.Diamond	D.Macey	J.Williams
S. Evans	A.Morgan	T.Williams
S.M.Evans	K.Morgan	C. J. Willis
M.Fidler Jones	S.Morgans	R.Yeo
M.Forey	M.Norris	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C.Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr C.Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr G.Isingrini - Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau
i Blant

Mr C.B.Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr C.Hanagan - Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Mr R.Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Ms K.May – Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol

129 CADEIRYDD

Yn absenoldeb y Maer, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Tegg, y Dirprwy Maer, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill oedd yn y Gadair.

130 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J.Elliott, P.Howe, G.Jones, W.Owen, S.Pickering, M.Tegg, R.K.Turner a G.D.G.Williams.

131 DATGAN BUDDIANNAU

PENDERFYNWYD – nodi doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

132 CYHOEDDIADAU

(a) Talodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber deyrnged i chwaraewr pêl-fasged ifanc, Freya Williams, sydd wedi cael ei dewis i chwarae yn nhîm Menywod o dan 16 Cymru ym mhencampwriaethau Ewropeaidd FIBA. Dyma'r pumed tro y mae Freya wedi cael ei dewis i gynrychioli ei gwlad, y tro cyntaf oedd pan oedd hi'n 11 oed.

(b) Roedd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Davies-Jones yn dymuno llongyfarch Stuart Davies o Beyond Balloons, Tonyrefail a gymerodd ran yng nghynhadledd Falwms y Byd yn San Diego ac a enillodd y wobr am y Dylunydd Gwadd Gorau gan guro dros 100 o ymgeiswyr o 52 gwlad.

(c) Roedd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.J.Powell yn dymuno llongyfarch Kayleigh Powell o Donyrefail sydd wedi cael ei dewis i chwarae i dîm Rygbi Saith Bob Ochr Menywod Cymru yng Ngemau Ieuentid y Gymanwlad.

133 COFNODION

PENDERFYNWYD - cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor a gafodd ei gynnal ar 28 Mawrth, 2018 yn ddarostyngedig i enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol M.Norris ac J.Rosser yn cael eu cynnwys yng nghofnod yr Ymddiheuriadau am Absenoldeb.

134 DATGANIADAU

PENDERFYNWYD - nodi, yn unol â Rheol Weithdrefnol 2, ni chafodd unrhyw ddatganiadau eu gwneud yn y cyfarfod gan yr Arweinydd nac Aelodau o'r Cabinet.

135 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

(a) Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Powell i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A. Crimmings)

"Beth yw'r rheswm y tu ôl i osod cyfyngiadau ar gyfarpar tynnu lluniau mewn pyllau nofio sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings

"Fel rheol gyffredinol, nid yw ffotograffiaeth yn cael ei chaniatáu. Serch hynny, yn dilyn cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol, bydd modd cymryd ffotograffau mewn digwyddiadau fel partiön. Mae polisi ar waith ac mae posteri wedi'u dosbarthu mewn gwahanol rannau o'r canolfannau hamdden".

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Powell

"Rydw i'n mynychu pwll nofio'r Porth gyda fy merch sy'n 7 oed. Rydw i wedi gofyn a fyddai modd i mi dynnu lluniau ar nifer o adegau ac ar un adeg roedd fy modryb drosodd o'r America a byddai wedi hoffi tynnu lluniau o fy merch ond gwrthodwyd caniatâd i ni wneud hynny bob amser. Rydw i wedi dychwelyd o Awstralia yn ddiweddar ac mae'n hawdd cymryd ffotograffau o blant yno fel bod teuluoedd yn cael cadw atgofion. Dyw'r polisi erioed wedi cael ei esbonio i mi. Rydw i wedi anfon sawl e-bost ynglŷn â hyn ond dydw i erioed wedi derbyn y polisi.

Rydw i'n ei weld yn annifyr pan mae'r Lido yn annog pobl i drydar ac yn hysbysebu'r pwll awyr agored gyda ffotograffau o blant. Pam fod hyn yn digwydd?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings

"Mae'r Lido'n caniatáu tynnu lluniau gyda chaniatâd y rhieni. Byddaf i'n trefnu i chi dderbyn copi o'r polisi".

(b) Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Forey i Arweinydd y Cyngor (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan)

"Fyddwch chi'n gwneud datganiad ynglŷn â blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor ar gyfer y tymor nesaf mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

"Yn amlwg mae cyllideb y Cyngor yn parhau i ddioddef o bwysau cynni ariannol ac mae hyn wedi bod yn wir ers 2011. Yn ystod y cyfnod yma roedd rhaid i ni leihau ein cyllideb o £11 miliwn. Pe baen ni'n parhau i wneud yr hyn roedden ni'n ei wneud yn 2011 gyda'r un nifer o staff a gwasanaethau byddai'n costio £100 miliwn yn rhagor. Rydyn ni wedi buddsoddi'n strategol

drwy'r Cynllun Corfforaethol dros y blynyddoedd diwethaf. Rydyn ni wedi buddsoddi yn ein seilwaith a'n hasedau ac rydyn ni wedi parhau i wneud hynny ar y lefelau uchaf erioed. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf fe wnaethon ni fuddsoddi dros £100 miliwn mewn prosiectau cyfalaf. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd ers i RhCT gael ei sefydlu. Rydyn ni wedi buddsoddi mewn mannau eraill o'r Cynllun Corfforaethol o dan y tri maes sy'n flaenoriaeth - Pobl, Lle ac Economi. Mae ein cyllideb o dan bwysau a bydd yn parhau i fod o dan bwysau gan y Llywodraeth Dori'aid. Bu buddsoddiad mawr yn yr ysgolion ar draws RhCT ac mae ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu yn ardaloedd Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-Elái".

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Forey

"Allwch chi wneud sylwadau am fuddsoddiad yng Nghwm Cynon yn benodol?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

"Dyma fanylion am y buddsoddiad rydyn ni wedi ei wneud yng Nghwm Cynon gan ddechrau gyda blaen y cwm. O ganlyniad i fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, mae ffordd Blaenau'r Cymoedd wedi cael ei gwneud yn ffordd ddeuol. Mae maes chwarae 3G wedi cael ei adeiladu yn Ysgol Rhydywaun. Mae gwaith adfywio wedi digwydd o gwmpas The Boot a'r Black Lion lle rydyn ni wedi cydweithio â Trivallis. Ysgol Aberdâr, lle mae'r Gyngorydd Bradwick yn Gadeirydd y Llywodraethwyr - bu datblygiad gwerth £50 miliwn sy'n cynnwys trac athletau newydd yn y datblygiad Chwaraeon. Ysgol newydd yng Nghwmaman. Rydyn ni'n buddsoddi ar hyd a lled Cwm Cynon. Mae buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a chronfa Ewrop i Ystad Ddiwydiannol Tresalem ac mae Coed-elái yn sicrhau lefel debyg o gyllid.

Mae'r rhestr yma'n eithriadol ac mae hyn hefyd yn wir ar gyfer Cwm Rhondda a Thaf-Elái".

(c) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol K.Morgan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings)

"Pa gynlluniau neu brosiectau penodol sydd gan y Cyngor ar y gweill er mwyn gwella a chynyddu nifer y gweithgareddau hamdden a thwristiaeth sy'n cael eu cynnal yng ngogledd Cwm Cynon?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings

"Mae'r Arweinydd wedi dwyn rhan o'm clodydd. O ran hamdden, mae gennyn ni Ganolfan Hamdden Sobell a Pharc Gwledig Cwm Dâr. Mae yna lawer o ddosbarthiadau yn digwydd. Mae meysydd chwarae 3G yn Sobell a Rhyd y Waun. Hefyd, rydyn ni wedi buddsoddi mewn caeau chwarae ac mae gwaith yn cael ei wneud yn Neuadd y Glowyr. Mae llawer o'r mannau chwarae hefyd wedi cael eu hadnewyddu.

Mae'r Arweinydd wedi sôn am y trac Athletau. Nid yw twristiaeth yn fy mhorthffolio ond rydw i'n awgrymu eich bod chi'n edrych ar y Cynllun Cyrchfannau ac ar y cynlluniau ar gyfer Glofa'r Tŵr. Mae buddsoddiad enfawr wedi bod yn y Parc ac rydyn ni wedi cael cychod yn ôl ar y llyn. Mae llawer yn digwydd yno ac yn ddiweddar fe wnes i fynychu cyfarfod i edrych ar gynigion pellach.

Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol K.Morgan

Diolch am eich ymateb. Rydw i wedi cael fy nghalonogi bod rhai cynlluniau i fynd i'r afael ag effaith andwyol diwydiant trwm a diwydiannau cyflogaeth isel yng Ngogledd Cwm Cynon ac rydw i'n edrych ymlaen at eu gweithredu.

Serch hynny, mae un maes a fyddai o bosibl yn gwella gweithgaredd hamdden a thwristiaeth petai'n cael ei wella nawr.

Mae'r rhan o Daith Cynon sy'n cael ei hadnabod yn lleol fel 'Y Dramffordd' (yn benodol rhwng Pen-y-waun a Hirwaun) wedi bod angen gwelliannau am nifer o flynyddoedd.

Oherwydd diffyg gwaith cynnal a chadw, mae trigolion ac ymwelwyr yn cyfeirio ati fel y rhan mwyaf budr ac annymunol o'r Daith i'w cherdded, rhedeg neu feicio.

Yn ogystal â phroblemau glanweithdra a thipio anghyfreithlon, mae'r Dramffordd wedi cael ei gadael i ddirywio i bwynt lle rydw i'n teimlo bydd costau adnewyddu yn rhy uchel.

Rydw i wedi cael fy nghynghori nad oes rhaglen o waith cynnal a chadw wedi'i chynllunio ar gyfer y Dramffordd. Mae hyn yn wahanol i Daith Taf.

A fydd yr Aelod Cabinet yn ymrwymo i gyflwyno amserlen cynnal a chadw wedi'i chynllunio ar gyfer y Dramffordd ac, os felly, erbyn pryd?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings

"Byddwn i'n edrych i mewn iddo. Rydw i'n gweithio'n agos gyda'r Garfan Lanbau ac os oes modd i mi wneud unrhyw beth fel Aelod o'r Cabinet byddaf i'n helpu".

(d) Cwestiwn Gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.Caple i Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan).

"Pa drafodaethau mae'r Cyngor wedi'u cynnal gyda Dŵr Cymru mewn perthynas â'r gwaith ar seilwaith yng Nghwm Rhondda?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

"Mae llawer o drafod wedi digwydd. Mae Ian Christie, y Rheolwr Gyfarwyddwr, yn bwriadu dod i gwrdd â mi'r wythnos nesaf fel dilyniant". Rydw i wedi gofyn am nifer o bethau y mae modd iddyn nhw eu gwneud i hysbysu'r cyhoedd o beth sy'n digwydd, e.e. cylchlythyr. Maen nhw hefyd wedi cytuno i ariannu nifer o agweddau fel rhannau o'r priffyrdd. Mae nifer o bwyntiau wedi cael eu codi gyda'r person sy'n gyfrifol am y cyfleustodau. Mae Dŵr Cymru hefyd yn ariannu Swyddogion Gorfodi ar gytundebau tymor byr. Maen nhw hefyd wedi cyfrannu i Garnifal y Porth. Rydyn ni wedi codi pryderon am yr effaith mae'r gwaith yn cael yn y Porth, gan gynnwys cau'r stryd unffordd.

Mae'r trafodaethau wedi bod yn helaeth, mae ein Swyddogion yn cwrdd â Dŵr Cymru yn wythnosol ac maen nhw'n gweithredu'n rhagweithiol ac rydyn ni'n dweud wrthyn nhw beth yw eu rhwymedigaethau".

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Caple

"A oes modd i chi dawelu meddyliau busnesau bod gan Dŵr Cymru gynllun ar waith a'i fod yn mynd i'r afael â phryderon trigolion a busnesau yn yr ardal?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

"Mae'r cwmni wedi penodi Swyddog Cyswllt ar gyfer y prosiect hwn i geisio siarad â chynifer o bobl â phosibl. Mae'r broses "Sut i Hawlio" wedi'i chyhoeddi ac rydyn ni wedi gofyn i Garfan Ranbarthol Dŵr Cymru ymweld eto fel bod pawb yn glir bod proses benodol ar gyfer cael iawndal. Mae'n cymharu enillion y llynedd ac eleni i weld os yw'r gwaith wedi effeithio ar lefelau incwm. Mae proses mewn lle i berchnogion siopau ei dilyn".

(e) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J.Harries i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor a materion Corfforaethol (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber)

"Oes modd i'r Dirprwy Arweinydd amlinellu'r cyfleoedd gwaith y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl ifainc yn Rhondda Cynon Taf?"

Ymateb gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber

"Mae'r Cyngor yn darparu nifer o gyfleoedd cyflogaeth allweddol i bobl ifainc yn y Fwrdeistref Sirol. Mae ein Rhaglen Prentisiaid arobryn a'n rhaglen i raddedigion yn cynnig rhaglenni dwy flynedd i ymgeiswyr llwyddiannus ac maen nhw wedi cael llawer o lwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf.

Ers 2012 rydyn ni wedi cyflogi 163 o Brentisiaid gyda dros 90% yn sicrhau gwaith ac yn parhau i symud ymlaen gyda'u gyrfaoedd. Ers cychwyn y cynllun yn 2004, mae 16 o'r rheini wedi sicrhau cyflogaeth trwy'r llwybr yma ac mae nifer ohonyn nhw bellach yn gweithio fel uwch reolwyr.

Rydyn ni'n bwriadu cynnig o leiaf 150 o gyfleoedd o'r fath yn ystod tymor y Cyngor yma.

Rydyn ni hefyd yn parhau i gynnig cyfleoedd drwy gynlluniau fel GofaliWaith (i'r rhai sy'n gadael gofal) a Camu i'r Cyfeiriad Cywir (pobl ifainc).

Rydyn ni'n ceisio cynnig cyfleoedd cyflogaeth drwy'r broses gaffael - contractau caffael sy'n cael eu rhoi i fusnesau lleol, lle bo modd, gyda'r codau post CF, NP neu SA fel rhan o'n hymdrechion i roi hwb i'r economi leol. Mae hyn hefyd yn cynnwys rhai achosion lle mae gweithrediad lleol yn cefnogi'r economi ond mae taliadau'n cael eu gwneud i gyfeiriad DU canolog. Canran y taliadau o'r fath ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 oedd 93.32%. Enghraifft o gynllun caffael ar raddfa fawr oedd Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys.

Rydyn ni'n gweithio'n agos â'r Undebau ac rydyn ni'n edrych ar Siarter i Brentisiaid".

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Harries

"Nid oes gennyf gwestiwn atodol ond hoffwn ddiolch i'r Cyngorydd Webber am ei hymateb ac rwy'n ddiolchgar am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud yn yr ardal hon".

ADRODDIAD AR Y CYD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL A CHYFARWYDDWR - Y CABINET A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

136 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU - PAPUR GWYRDD - "CRYFHAU LLYWODRAETH LEOL": CYFLAWNI DROS EIN POBL"

Yn unol â Chofnod Rhif 124 o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Mawrth, 2018, yn eu hadroddiad ar y cyd fe wnaeth Cyfarwyddwr - y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, amlinellu barn Aelodau mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a Gweithgor y Cabinet a gynhaliwyd ar 10 Ebrill ac 16 Ebrill, yn unol â dogfen Ymgynghorol Llywodraeth Cymru uchod. Cafodd y rhain eu nodi yn atodiad A a B yr adroddiad.

Yn y cyfarfod, bu Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan yn siarad am ymateb drafft y Cyngor. Cafodd copïau o hyn eu cylchredeg cyn i'r cyfarfod ddechrau ac roedd yn cynnwys y safbwyntiau a gafodd eu mynegi yn y cyfarfodydd uchod.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD—**

1. Nodi sylwadau'r Aelodau o'r cyfarfodydd a gafodd eu cynnal ar 10 a 16 Ebrill a amlinellir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad;
2. Cytuno ar yr ymateb drafft fel yr adroddwyd yn y cyfarfod a'i gyflwyno gan Arweinydd y Cyngor sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau 12 Mehefin, 2018, yn amodol ar y gair '**unig**' yn cael ei ychwanegu, ym mharagraff olaf yr ymateb - "*Ym marn y Cyngor yma, nid*

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Cyngor

*ad-drefnu llywodraeth leol yw'r **unig** ateb i ddarparu gwasanaethau gwell
.....”*

ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD I'R CABINET

137 PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL BRYD WEDI'U GWEITHREDU

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), adroddodd Ysgrifennydd y Cabinet ar benderfyniad brys y Cabinet ar 15 Chwefror, 2018 mewn perthynas â Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor; a **PHENDERFYNWYD** - nodi'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad.

138 RHYBUDD O GYNNIG

Ystyriwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol S.Belzak a J.James :-

(a) Rhybudd o Gynnig

"Yn ystod y flwyddyn yma sy'n nodi canmlwyddiant ers i ferched ennill yr hawl i bleidleisio, ac yng ngoleuni cyfraniad ffeministiaeth i sawl diwygiad deddfwriaethol arloesol megis Deddf Cyflog Cyfartal 1970 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 ymhlith eraill:-

- (1) Er mawr ofid, mae'r Cyngor yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu ffeministiaeth (ac amlddiwylliaeth) fel pwnc oddi ar faes llafur Cymru ar gyfer cymhwyster Lefel A 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' gan ddechrau ym mis Medi 2018;
- (2) Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod deilliannau adolygiad tebyg a gafodd ei gyflawni gan Lywodraeth San Steffan wedi arwain at benderfyniad i gadw ffeministiaeth yn rhan o faes llafur Lloegr;
- (3) Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod modd i ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, ac ym mhob rhan o Gymru, ddewis i ddilyn meysydd llafur y Byrddau Arholi yn Lloegr, mewn egwyddor. Fodd bynnag, byddai'r penderfyniad yma ddim yn denu cyllid dan bolisiau presennol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

Cysylltu â Llywodraeth Cymru ar frys er mwyn gofyn iddi adolygu'i phenderfyniad, a hefyd i sicrhau bod Aelodau Seneddol lleol yn lleisio barn y Cyngor a bod barn y Cyngor yn cael ei chlywed mewn cylchoedd trafod perthnasol, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)."

(b) Diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig

Yn unol â pharagraff 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r Diwygiad canlynol (mae'r diwygiadau'n cael eu dangos mewn print trwm) i'r Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, E.Stephens L.Jones. S.Rees-Owen, M.Weaver, J.Williams, A.Cox, H.Fychan, J.Davies, J.Cullwick, E.Webster, S.Evans, A.Chapman, K.Morgan, D.Grehan a D.Macey:-

"Yn ystod y flwyddyn yma sy'n nodi canmlwyddiant ers i ferched ennill yr hawl i bleidleisio, ac yng ngoleuni cyfraniad ffeministiaeth i sawl diwygiad deddfwriaethol arloesol megis Deddf Cyflog Cyfartal 1970 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 ymhlith eraill:-

- (1) Er mawr ofid, mae'r Cyngor yn nodi penderfyniad Cymwysterau Cymru i dynnu ffeministiaeth (ac amlddiwylliannaeth) fel pwnc oddi ar faes llafur Cymru ar gyfer cymhwyster Lefel A 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' gan ddechrau ym mis Medi 2018;
- (2) Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod deilliannau adolygiad tebyg a gafodd ei gyflawni gan **Rheoleiddiwr Annibynnol** wedi arwain at benderfyniad i gadw ffeministiaeth yn rhan o faes llafur Lloegr;
- (3) Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod modd i ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, ac ym mhob rhan o Gymru, ddewis i ddilyn meysydd llafur y Byrddau Arholi yn Lloegr, mewn egwyddor. Serch hynny, fyddai'r penderfyniad yma ddim yn denu cyllid dan bolisiau presennol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

Cysylltu â **Chymwysterau Cymru** yn uniongyrchol ar frys er mwyn gofyn iddo adolygu'i benderfyniad, a hefyd sicrhau bod barn y Cyngor yn cael ei chlywed gan **bob** Aelod Cynulliad **sy'n cynrychioli ein Sir** ac mewn cylchoedd trafod perthnasol, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)."

Ar ôl ystyried y Diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig, ymatebodd Cynigydd y Cynnig, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol, S.Belzak i'r Diwygiad a chynhaliwyd pleidlais a fwriwyd o blaid y **CYNNIG**.

(c) Diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig

Yna rhoddwyd ystyriaeth i'r Diwygiad canlynol (mae'r diwygiadau'n cael eu dangos mewn print trwm) a gafodd ei dderbyn yn unol â pharagraff 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor i'r Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol A.Morgan a M.Webber:-

"Yn ystod y flwyddyn yma sy'n nodi canmlwyddiant ers i ferched ennill yr hawl i bleidleisio, ac yng ngoleuni cyfraniad sawl diwygiad deddfwriaethol arloesol megis Deddf Cyflog Cyfartal 1970 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 ymhlith eraill:-

Er mawr ofid, mae'r Cyngor yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu ffeministiaeth (ac amlddiwylliannaeth) fel pwnc oddi ar faes llafur Cymru ar gyfer cymhwyster Lefel A 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' gan ddechrau ym mis Medi 2018;

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod deilliannau adolygiad tebyg a gafodd ei gyflawni gan Lywodraeth San Steffan wedi arwain at benderfyniad i gadw ffeministiaeth yn rhan o faes llafur Lloegr;

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod modd i ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, ac ym mhob rhan o Gymru, ddewis i ddilyn meysydd llafur y Byrddau Arholi yn Lloegr, mewn egwyddor. Serch hynny, fyddai'r penderfyniad yma ddim yn denu cyllid dan bolisiâu presennol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

Gwneud cynrychiolaeth i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i godi'r mater yma a gofyn i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc ystyried yr agwedd bwysig yma ar ddinasyddiaeth ac addysg wleidyddol ar bob lefel o addysg fel rhan o'u rhaglen waith yn y dyfodol ".

Ar ôl ystyried y Diwygiad, cymerwyd pleidlais a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig: -

"Yn ystod y flwyddyn yma sy'n nodi canmlwyddiant ers i ferched ennill yr hawl i bleidleisio, ac yng ngoleuni cyfraniad ffeministiaeth i sawl diwygiad deddfwriaethol arloesol megis Deddf Cyflog Cyfartal 1970 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 ymhlith eraill:-

Er mawr ofid, mae'r Cyngor yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu ffeministiaeth (ac amlddiwylliannaeth) fel pwnc oddi ar faes llafur Cymru ar gyfer cymhwyster Lefel A 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' gan ddechrau ym mis Medi 2018;

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod deilliannau adolygiad tebyg a gafodd ei gyflawni gan Lywodraeth San Steffan wedi arwain at benderfyniad i gadw ffeministiaeth yn rhan o faes llafur Lloegr;

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod modd i ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, ac ym mhob rhan o Gymru, ddewis i ddilyn meysydd llafur y Byrddau Arholi yn Lloegr, mewn egwyddor. Serch hynny, fyddai'r penderfyniad yma ddim yn denu cyllid dan bolisiâu presennol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

Gwneud cynrychiolaeth i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i godi'r mater yma a gofyn i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc ystyried yr agwedd bwysig yma ar ddinasyddiaeth ac addysg wleidyddol ar bob lefel o addysg fel rhan o'u rhaglen waith yn y dyfodol".

139 RHYBUDD O GYNNIG

Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol G. Thomas a G. Caple:-

(a) Rhybudd o Gynnig

"Mae'r Cyngor yn nodi sawl anghysondeb o ran y gymhareb Cynghorydd-etholwr/preswlydd sawl ward yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae aelodau hefyd yn nodi bod modd lleihau nifer y cynrychiolwyr sy'n cael eu hethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn sylweddol oherwydd y gallu i ddefnyddio technoleg cyfathrebu ddatblygedig. Byddai hyn yn golygu bod rhagor o adnoddau ar gael ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, megis addysg.

Gan gadw'r pethau yma mewn cof, bydd Aelodau yn gofyn i'r Swyddog sy'n gyfrifol am etholiadau i baratoi adroddiad ar gyfer Aelodau ynglŷn â sut mae modd aildrefnu wardiau'r sir er mwyn darparu balans Cynghorydd-etholwr/preswlydd sy'n fwy teg a chyfiawn gyda chymorth Gweithgor y Pwyllgor Craffu cyfrifol."

(b) Diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig

Rhodddwyd ystyriaeth i'r Diwygiad canlynol (mae'r diwygiadau'n cael eu dangos mewn print trwm) a gafodd ei dderbyn yn unol â pharagraff 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor i'r Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G.Davies, E.Stephens, L.Jones, S.Rees-Owen, M.Weaver, J.Williams, A.Cox, H.Fychan, J.Davies, J.Cullwick, E.Webster, S.Evans, A.Chapman, K.Morgan, D.Grehan a D.Macey:-

"Mae'r Cyngor yn nodi sawl anghysondeb o ran y gymhareb Cynghorydd-etholwr/preswlydd sawl ward yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae aelodau hefyd yn nodi bod modd lleihau nifer y cynrychiolwyr sy'n cael eu hethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn sylweddol oherwydd y gallu i ddefnyddio technoleg cyfathrebu ddatblygedig. Byddai hyn yn golygu bod rhagor o adnoddau ar gael ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, megis addysg.

Gyda'r pwyntiau yma mewn cof, bydd Aelodau, **yn ddarostyngedig i Lywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r Papur Gwyrdd o dan y teitl 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl', yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn cyfarwyddo'r Swyddog sy'n gyfrifol am etholiadau i ysgrifennu adroddiad i'r Aelodau ar sut y gellir adlinio wardiau'r sir i ddarparu cymhareb Cynghorydd-etholwr/preswlydd deg a chyfartal drwy Weithgor o'r Pwyllgor Craffu cyfrifol i ffurfio sail cynrychiolaeth y Cyngor yma i'r Comisiwn**

Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar unrhyw drefniadau newydd a allai ddod i'r amlwg".

Ar ôl ystyried y Diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig, ymatebodd Cynigydd y Cynnig, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Powell i'r Diwygiad, a chymerwyd pleidlais a fwriwyd o blaid y Diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a ddaeth yn **GYNNIG O SYLWEDD**, felly **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig a ddaeth yn Gynnig o Sylwedd: -

"Mae'r Cyngor yn nodi sawl anghysondeb o ran y gymhareb Cynghorydd-etholwr/preswlydd sawl ward yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae aelodau hefyd yn nodi bod modd lleihau nifer y cynrychiolwyr sy'n cael eu hethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn sylweddol oherwydd y gallu i ddefnyddio technoleg cyfathrebu ddatblygedig. Byddai hyn yn golygu bod rhagor o adnoddau ar gael ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, megis addysg.

Gyda'r pwyntiau yma mewn cof, bydd Aelodau, yn ddarostyngedig i Lywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r Papur Gwyrdd o dan y teitl 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl', yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn cyfarwyddo'r Swyddog sy'n gyfrifol am etholiadau i ysgrifennu adroddiad i'r Aelodau ar sut y gellir adlinio wardiau'r sir i ddarparu cymhareb Cynghorydd-etholwr/preswlydd deg a chyfartal drwy Weithgor o'r Pwyllgor Craffu cyfrifol i ffurfio sail cynrychiolaeth y Cyngor yma i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar unrhyw drefniadau newydd a allai ddod i'r amlwg".

PENDERFYNWYD YMHELLACH nodi bod y Diwygiad a gyflwynwyd yn unol â Pharagraff 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor a gyflwynwyd gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A.Morgan a M. Webber mewn perthynas â'r Rhybudd o Gynnig fel sy'n cael ei amlinellu yng Nghofnod 139(a) ac sy'n cael ei ddangos ar yr Agenda gan fod eitem 9(b) uchod wedi cael ei dynnu'n ôl.

**S.POWDERHILL
DIRPRWY FAER**

Daeth y cyfarfod i ben am 6.47pm.